# Swydd-ddisgrifiad a Manyleb yr Unigolyn

## MANYLION Y SWYDD

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Athro/Athrawes |
| **Gradd:** | Prif raddfa athrawon + TLR 2 |
| **Cyfarwyddiaeth:** | Addysg |
| **Isadran:** | Ysgolion |
| **Lleoliad:** | Ysgol Gymraeg Bro Allta |
| **Atebol i:** | Pennaeth a Llywodraethwyr yr Ysgol |

## CYFLWYNIAD

Mae'r swydd-ddisgrifiad hwn yn ategu'r safonau, y gwerthoedd a'r agweddau a nodir yn Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth 2018. Bydd Arweinydd Cam Cynnydd yn cefnogi, yn arddangos ac yn hyrwyddo'r gwerthoedd a'r agweddau cyffredinol a ddiffinnir yn y Safonau Proffesiynol ynghylch:

1) Hawl broffesiynol
2) Yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru
3) Hawliau dysgwyr
4) Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol
5) Y dysgwr proffesiynol
6) Rôl yn y system

Mae'n ofynnol i ddeiliad y swydd ysgwyddo cyfrifoldebau proffesiynol Arweinydd Cam Cynnydd yn unol â'r hyn a nodir yn Nogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol.

## DIBEN Y SWYDD

Dan arweiniad y pennaeth, gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu gweledigaeth eglur ar gyfer yr ysgol, gan gydweithio â holl randdeiliaid yr ysgol, a darparu'r arweinyddiaeth broffesiynol sy'n ofynnol i alluogi bob aelod o staff Cam Cynnydd 2 i gynorthwyo dysgwyr i gyflawni eu potensial llawn. Dylid gwneud hyn yn unol â polisïau'r corff llywodraethu, ac yn unol â'r blaenoriaethau a amlinellir mewn strategaethau addysg lleol a chenedlaethol.

## MEYSYDD ALLWEDDOL

**Addysgeg**

1. Sicrhau'r deilliannau gorau yn gyson i ddysgwyr trwy fireinio a datblygu addysgu yn raddol a dylanwadu ar ddysgwyr.

| | |
|---|---|
| 2. | Sefydlu a chynnal amgylchedd dysgu sy'n annog arferion ac ymddygiadau dysgu cadarnhaol sy'n cyflawni'r pedwar diben ac sy'n galluogi dysgwyr i ysgwyddo cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain. |
| 3. | Defnyddio amrywiaeth o dechnegau asesu i fonitro a chofnodi cynnydd disgyblion ac i lywio cynllunio er mwyn diwallu anghenion canfyddadwy dysgwyr. |
| 4. | Gwneud defnydd effeithiol o wahaniaethu er mwyn diwallu anghenion bob dysgwr. |
| 5. | Gwneud defnydd effeithiol o ddata i lunio adborth, cofnodion ac adroddiadau cywir ar yr adegau priodol, er mwyn hwyluso dealltwriaeth ddwysach o ddysgu a gwella'r profiad dysgu. |
| 6. | Sicrhau fod rhieni, gofalwyr, partneriaid eraill a rhanddeiliaid y cyfrannu at ddatblygiad dysgwyr mewn perthynas â phedwar diben y cwricwlwm. |
| 7. | Ymgorffori, datblygu ac ymestyn y pedwar diben wrth gynllunio, paratoi ac addysgu, er mwyn dylanwadu ar brofiadau dysgwyr a sicrhau deilliannau cadarnhaol i bob dysgwr. |
| 8. | Defnyddio dulliau addysgeg a disgyblaethau perthnasol o fewn ac ar draws cynnwys y pwnc, meysydd dysgu a themâu trawsgwricwlaidd, wrth gynllunio a darparu. |
| 9. | Defnyddio amrywiaeth helaeth o ddulliau addysgu a phrofiadau dysgu cyfunol. |
| 10. | Ehangu profiadau diwylliannol ieithyddol, crefyddol ac economaidd-gymdeithasol dysgwyr trwy'r defnydd o gyd-destunau dysgu dilys, go iawn. |
| 11. | Cydweithio â dysgwyr i dracio cynnydd eu dysgu a nodi beth yw'r camau nesaf sy'n ofynnol er mwyn gwneud cynnydd. |
| 12. | Datblygu a defnyddio themâu trawsgwricwlaidd sy'n berthnasol i feysydd dysgu er mwyn datblygu cysylltiadau a galluogi adfyfyrio effeithiol ar ddysgu. |
| 13. | Cyfathrebu a darparu lefelau priodol o her a disgwyliadau ar gyfer galluoedd a nodweddion y myfyrwyr er mwyn cymell dysgwyr i gyflawni. |
| 14. | Ceisio canfod safbwyntiau dysgwyr a gwrando arnynt a'u cymryd i ystyriaeth er mwyn ennyn eu diddordeb yn eu dysgu eu hunain a'u hannog i fod yn gyfranogwyr gweithgar yn y dysgu hwnnw. |
| 15. | Annog dysgwyr i adfyfyrio ar eu dysgu eu hunain a chyfrannu'n weithgar at y gwaith o reoli eu hagenda dysgu eu hunain. |
| 16. | Annog dysgwyr i fod yn hunangymhellol ac yn hunangyfeiriol, a sicrhau eu bod yn cyflawni hynny. |
| 17. | Sicrhau fod amser ar gael i ddysgwyr i adfyfyrio ar eu dysgu a'u hymddygiadau eu hunain a'u gwerthuso. |
| 18. | Hybu cysylltiadau rhwng profiadau dysgu a deilliannau o ansawdd uchel a gwella dysgu a llesiant. |

**Cydweithredu**

| | |
|---|---|
| 19. | Sefydlu hinsawdd o gyd-gynorthwyo a chydweithredu effeithiol o fewn Cam Cynnydd 2 ac â sefydliadau allanol i ddatblygu, gwella a rhannu addysgeg effeithiol. |
| 20. | Sefydlu a datblygu partneriaethau yng Ngham Cynnydd 2 a rhwng ysgolion i rannu arferion gorau a chynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu ysgolion er lles pawb, er mwyn sicrhau ansawdd uchel a chymorth hyblyg i ddatblygu arferion proffesiynol. |
| 21. | Sefydlu perthnasoedd effeithiol ac agored â rhieni, gofalwyr a'r gymuned leol ehangach er mwyn mynd ati i ennyn eu diddordeb yn llesiant, profiad a chynnydd dysgwyr, a sicrhau fod yr ysgol yn gwneud cyfraniad allweddol at fywyd y gymuned. |
| 22. | Datblygu ymrwymiad Cam Cynnydd 2 i sicrhau gwelliannau parhaus a datblygiad cynaliadwy trwy fynd ati i hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd i gydweithredu ar gyfer bob aelod o staff, gan sicrhau fod y meysydd hynny sy'n peri pryder yn cael eu hadnabod yn briodol a gweithredu'n briodol i gefnogi a sicrhau perfformiad gwell. |

**Dysgu Proffesiynol**

| | |
|---|---|
| 23. | Creu amgylchedd sy'n gwerthfawrogi dysgu proffesiynol, yn dylanwadu ar addysgeg ac yn cynorthwyo i sicrhau twf proffesiynol ar draws Cam Cynnydd 2. |
| 24. | Darllen yn eang er mwyn gwella dealltwriaeth o theorïau ac ymchwil sy'n ymwneud ag asesu, addysgeg, datblygiad plant a phobl ifanc a dysgu am faterion sy'n berthnasol i gynllunio ac arferion beunyddiol. |
| 25. | Cyfranogi mewn rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol. |
| 26. | Sicrhau fod cyfleoedd dysgu proffesiynol cyson sydd â ffocws penodol ar gael i staff Cam Cynnydd 2, yn cynnwys cyfleoedd iddo ef/iddi hi ei hun, a sicrhau fod twf proffesiynol yn digwydd yng nghyd-destun yr angen i ddatblygu arferion addysgeg a darparu profiadau a chyflawni deilliannau i ddysgwyr. |

**Arloesedd**

| | |
|---|---|
| 27. | Mynd ati'n arloesol i ddatblygu technegau a dulliau i wella addysgeg a deilliannau. |
| 28. | Cynorthwyo pobl eraill i ddatblygu trwy fodelu technegau addysgu a defnyddio profiad i gynnig cyngor ac arbenigedd. |
| 29. | Defnyddio barn broffesiynol a dadansoddi beirniadol i ddatblygu technegau newydd a llunio arferion gwaith er mwyn datblygu dysgu. |
| 30. | Gwerthuso, dadansoddi a rhannu dylanwad newidiadau mewn arferion. |

**Arweinyddiaeth**

| | |
|---|---|
| 31. | Cydweithio â chymuned yr ysgol i wireddu gweledigaeth addysgeg er budd dysgwyr a chydweithwyr. |
| 32. | Cydweithio â rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau fod cynllunio strategol yn adlewyrchu amrywiaeth, gwerthoedd, profiad a chyd-destun yr ysgol a'r gymuned ehangach. |
| 33. | Cydweithio â'r Pennaeth i greu diwylliant sy'n caniatáu i eraill ddatblygu'n broffesiynol. |
| 34. | Datblygu, grymuso a chynnal unigolion a thimau effeithiol trwy gyfrwng arweinyddiaeth wasgaredig, ac annog myfyrio ynghylch addysgeg. |
| 35. | Datblygu rhwydweithiau effeithiol i rannu gwybodaeth broffesiynol, ymchwil ac arbenigedd ymarferol sy'n galluogi'r ysgol ac ysgolion eraill i elwa yn sgil cydweithredu rhyngddynt. |

**Rheoli'r ysgol**

| | |
|---|---|
| 36. | Cydweithio â'r UDRh a'r corff llywodraethu i lunio a gweithredu cynlluniau a pholisïau eglur sy'n seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn datblygu'r ysgol a'i chyfleusterau. |
| 37. | Â chymorth yr UDRh a'r corff llywodraethu, rheoli a threfnu amgylchedd Cam Cynnydd 2 yn effeithlon ac yn effeithiol i sicrhau ei bod yn cyflawni gofynion y cwricwlwm a rheoliadau iechyd a diogelwch. |
| 38. | Cynorthwyo'r UDRh a'r corff llywodraethu i reoli adnoddau ariannol a dynol yr ysgol yn effeithiol ac yn effeithlon, er mwyn cyflawni blaenoriaethau a nodau addysgol yr ysgol. |
| 39. | Gan gydweithio â'r UDRh a'r corff llywodraethu, monitro, gwerthuso ac adolygu amrywiaeth ac ansawdd yr holl adnoddau sydd ar gael a'r defnydd a wneir ohonynt, er mwyn gwella ansawdd addysg bob dysgwr ac i sicrhau gwerth am arian. |
| 40. | Cydweithio ag UDRh i ddatblygu a gweithredu strategaethau sy'n sicrhau bod yr ysgol yn cynnig amgylchedd diogel, digynnwrf a threfnus ar gyfer bob dysgwr a bob aelod o staff, a sicrhau safonau uchel o ran ymddygiad a phresenoldeb, gan arwain at amgylchiadau llwyddiannus ar gyfer dysgu. |

## PERSON SPECIFICATION

**Daliwch sylw, gall meini prawf y rhestr fer gael eu profi ar adeg yr asesu hefyd.**

| | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| CYMHWYSTER | Statws Athro Cymwysedig<br>Wedi cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg ar hyn o bryd | Cymwysterau ychwanegol a/neu'r astudiaethau proffesiynol sy'n berthnasol i'r ystod oedran. |
| GWYBODAETH A PHROFIAD | Tystiolaeth o brofiad perthnasol llwyddiannus o addysgu. | Profiad llwyddiannus o arwain datblygiad a newid ar lefel ysgol gyfan. |

| | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| | Dealltwriaeth dda o ddulliau effeithiol o gynllunio'r cwricwlwm, asesu a gosod targedau.<br><br>Gwybodaeth am dechnolegau newydd i gefnogi addysgu a dysgu a phrofiad o'u defnyddio.<br><br>Gwybodaeth am strategaethau effeithiol i reoli ymddygiad a phrofiad o ddefnyddio'r strategaethau hynny.<br><br>Profiad diweddar fel arweinydd mewn ysgol gynradd e.e. arwain pwnc / maes dysgu a phrofiad.<br><br>Gwybodaeth am gyd-destun presennol diwygiadau ehangach Addysg yng Nghymru a gwybodaeth drylwyr am 'Gwricwlwm Cymru' a'i oblygiadau o ran addysgu a dysgu.<br><br>Dealltwriaeth drylwyr ynghylch prosesau a gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant. | Profiad llwyddiannus o fonitro, gwerthuso ac adolygu perfformiad er mwyn gwella cyflawniadau bob dysgwr.<br><br>Gwybodaeth am strategaethau a gweithdrefnau effeithiol ynghylch dysgu proffesiynol ac adolygu perfformiad.<br><br>Profiad o ddatblygu perthnasoedd a chydweithio'n effeithiol â llywodraethwyr. |
| SGILIAU | Ymarferwr trefnus, hyblyg ac arloesol a'r gallu i ddirprwyo.<br><br>Y gallu i greu amgylchedd dysgu effeithiol a hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol.<br><br>Y gallu i sefydlu perthnasoedd da a chydweithio ag aelodau eraill o staff a rhieni.<br><br>Y gallu i gyfleu a chyfathrebu gweledigaeth eglur am ddarpariaeth addysgol o ansawdd uchel ar gyfer Cam Cynnydd 2.<br><br>Y gallu i arwain, rheoli a chymell staff a disgyblion i gyflawni safonau uchel.<br><br>Y gallu i gyfathrebu a datblygu cysylltiadau yn effeithiol, yn llafar ac yn ysgrifenedig, ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. | Y gallu i wella ansawdd bywyd yr ysgol ymhellach trwy gyfrwng gweithgareddau allgyrsiol.<br><br>Y gallu i ddatblygu rhwydwaith cryf o berthnasoedd a phartneriaethau ag ysgolion eraill, proffesiynau addysg a sefydliadau allanol priodol. |

| | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| | Sgiliau personol da o ran defnyddio a chymhwyso technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). | |
| RHINWEDDAU PERSONOL | Y gallu i fod yn gydnerth o dan bwysau a pharhau i fod yn gadarnhaol a brwdfrydig.<br><br>Ymrwymiad i ddysgu proffesiynol parhaus personol a phobl eraill.<br><br>Ymrwymiad i hybu llesiant holl aelodau cymuned yr ysgol.<br><br>Ymrwymiad i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.<br><br>Y gallu i wneud penderfyniadau cadarn a chytbwys, a bod yn bendant ei (h)agwedd ac yn hyblyg.<br><br>Gonestrwydd, ffyddlondeb a sensitifrwydd. | |
| GOFYNION ERAILL | Mae'r swydd hon wedi'i heithrio o dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 a byddir yn gwirio pob ymgeisydd trwy broses drylwyr. Fel rhan o hyn, bydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cynnal gwiriad manwl ac yn gwirio rhestri gwahardd. (DBS)<br><br>Deall ac arddangos parodrwydd i hyrwyddo polisi cyfleoedd cyfartal y Cyngor yn gadarnhaol. | |